**Ysgol Mynydd Bychan**

**Polisi Gwrth-fwlio**

## 1 <u>Cyflwyniad</u>

1.1 Mae sawl diffiniad o'r hyn yw bwlio. Ond mae tri pheth yn gyffredin:

- mae'n ymwneud ag ymddygiad sy'n fwriadol niweidiol;
- mae'n digwydd yn gyson dros gyfnod o amser;
- mae'n anodd i'r rhai sy'n cael eu bwlio i amddiffyn eu hunain.

1.2 Mae bwlio'n gallu digwydd mewn gwahanol ffyrdd:

- Corfforol – pan fydd person yn cael ei daro, ei gicio neu pan fydd ei eiddo yn cael ei ddwyn neu ei niweidio.
- Llafar – pan fydd galw enwau yn digwydd, neu pan fydd sylwadau hiliol, rhywiaethol neu sarhaus yn cael eu gwneud.
- Anuniongyrchol – pan fydd straeon yn cael eu lledu, neu pan fydd unigolyn yn cael ei eithrio o unrhyw grŵp cymdeithasol
- Negeseuon testun / e-bost / cyfryngau cymdeithasol

Mae aflonyddiad hiliol neu rhywiol yn ffurf ar fwlio. Maent yn cynnwys yr un elfennau, ond wedi eu hanelu yn erbyn unigolion am eu bod yn perthyn i grŵp neu rhyw arbennig.

Mae angen delio â bwlio oherwydd hil yng nghyd-destun polisi gwrth-hiliaeth yr ysgol (gweler Deddf Cydraddoldeb 2010 a *Guidelines and Procedures for dealing with and reporting racist incidents in schools).*

1.3 Mae bechgyn a merched yn gallu cymryd rhan mewn bwlio. Ond, mae'r mwyafrif o achosion sy'n cael eu cofnodi yn ymwneud â bechgyn unigol neu grŵp o fechgyn. Pan fydd merched yn cymryd rhan mewn bwlio, byddant fel arfer yn gwneud hynny mewn grŵp, ac mae'n aml yn digwydd yn anuniongyrchol. Mae'n anoddach i athrawon sylwi ar hyn.

1.4 Gall unrhyw blentyn ddioddef o fwlio, ond mae rhai ffactorau yn peri bod y peth yn fwy tebygol o ddigwydd:

- diffyg ffrindiau;
- swildod;
- dod o gefndir teuluol gor-amddiffynnol;

- dod o grŵp ethnig neu hil gwahanol;
- yn wahanol i'r mwyafrif o bobl mewn rhyw ffordd amlwg;
- Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- cymeriad cythruddol – hynny yw plentyn sy'n ymddwyn mewn ffordd anaddas gydag eraill, yn tarfu ar gemau, neu'n boendod.

Nid yw'r ffactorau uchod yn esgusodi'r bwlio.

1.5 Mewn ysgolion cynradd mae tua tri chwarter y bwlio yn digwydd ar yr iard chwarae. Rydyn ni'n sylweddoli bod bwlio yn gallu digwydd ar y siwrne i'r ysgol ac o'r ysgol yn ogystal ag ar dir yr ysgol.

1.6 O ran hanfod mae bwlio yn digwydd dan yr wyneb, allan o olwg a chlyw yr athrawon a'r staff cynorthwyol. Efallai mai'r elfen bwysicaf mewn adnabod bwlio yw creu diwylliant gadarnhaol yn yr ysgol, lle na fydd bwlio yn cael ei ddioddef, a phan fydd plant yn ystyried bod tynnu sylw athrawon at ddigwyddiad o fwlio yn beth cadarnhaol a gwerthfawr.

Dylai athrawon, serch hynny, fod yn ymwybodol o rai arwyddion o fwlio, er mwyn iddynt fynd i waelod y mater:

- amharodrwydd i fynychu'r ysgol;
- dirywiad sylweddol mewn perfformiad plentyn;
- amharodrwydd i fynd allan i chwarae;
- amharodrwydd i adael yr ysgol, i gerdded adref gyda disgyblion eraill, neu i ddefnyddio'r bws ysgol;
- esgusodion annhebygol dros eiddo wedi torri;
- plant sy'n cael eu hynysu ar yr iard, amser cinio neu yn ystod gemau;
- plant sy'n ymddwyn mewn ffordd ynysig, mewnblyg;
- plant sy'n ymddwyn yn wrth-gymdeithasol tuag at eraill.

1.7 Seibr-fwlio

Seibr-fwlio yw pan gaiff plentyn ei bryfocio, bygwth, aflonyddu neu fychanu gan blentyn arall trwy dechnolegau digidol neu ffonau symudol.

Mae seibr-fwlio yn bryder cynyddol ymysg pobl ifanc ac mae'n bwysig bod rheini yn gallu siarad gyda'u plant am aros yn ddiogel wrth bori'r we a defnyddio ffonau symudol yn gyfrifol.

Rydyn ni yn Ysgol Mynydd Bychan yn trafod hyn yn ein gwersi ABCh,E-ddiogelwch, TGCh, sesiynau Amser Cylch ac yn gwahodd yr heddwas cymunedol i siarad â'r disgyblion.

## 2 Nod ac amcanion

2.1 Nid yw bwlio yn dderbyniol. Mae'n niweidio plant unigol. Felly rydyn ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i'w atal. Rydyn ni'n ceisio creu ethos lle na fydd bwlio yn cael ei dderbyn. Rhaid dod â'r peth i sylw person mewn awdurdod, a rhaid delio â'r peth yn syth. Er mwyn delio â bwlio rhaid cael cydweithrediad holl aelodau cymuned yr ysgol, yn cynnwys disgyblion, rhieni, staff cynorthwyol, gwarcheidwaid awr-ginio ac athrawon.

2.2 Rydyn ni fel ysgol yn hybu'r agweddau a'r gwerthoedd cadarnhaol, sef gofal at eraill, sensitifrwydd i deimladau eraill, parchu eraill a pharchu'r hunan (yn unol â'r fframwaith ABCh Cymru a DPLICh*)*.

2.3 Rydyn ni'n ceisio creu awyrgylch ddiogel, er mwyn i'r plant ddysgu heb ofn na gofid. Yn yr ystafell ddosbarth byddwn yn creu strategaethau i gadarnhau ymddygiad cadarnhaol, er enghraifft, gweithio mewn parau a grwpiau bychain.

2.4 Yn yr ysgol rydyn ni'n manteisio ar yr amser ar y carped, Amser Ni, gwasanaethau neu amser addas yn yr ystafell ddosbarth i sôn am faterion fel bwlio. Rydyn ni'n anelu at greu ymwybyddiaeth o gydymdeimlad a pharch. Dathlwn Wythnos Gwrth-Fwlio fel ysgol.

2.5 Bydd y polisi hwn yn sicrhau bod cysondeb yn y ffordd y mae'r ysgol yn delio â digwyddiadau o fwlio.

2.6 Rydyn ni'n bwriadu sicrhau bod pawb sy'n rhan o'r ysgol yn ymwybodol ein bod yn gwrthwynebu bwlio, ac rydyn ni'n egluro bod cyfrifoldeb ar bawb i'n cynorthwyo i ddileu bwlio.

## 3 Rôl y llywodraethwyr

3.1 Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r pennaeth ym mhob ymdrech i ddileu bwlio o'n hysgol. Mae'r polisi hwn yn datgan yn glir nad yw'r corff llywodraethol yn caniatàu i fwlio ddigwydd yn yr ysgol. Bydd rhaid delio yn ddifrifol ag unrhyw achos o fwlio.

3.2 Mae'r corff llywodraethol yn monitora'r achosion o fwlio sy'n digwydd yn yr ysgol, ac yn adolygu'r polisi yn gyson. Mae'r corff llywodraethol yn gofyn i'r pennaeth i gadw cofnod cywir o'r holl achosion o fwlio ac i'w hysbysu yn ôl y gofyn ynglŷn ag effeithiolrwydd y strategaethau gwrth-fwlio.

3.3 Os bydd rhiant yn gofyn i'r corff llywodraethol i ymchwilio i achos o fwlio, yna bydd yn gwneud hynny o fewn deg diwrnod. Ym mhob achos, bydd y

corff llywodraethol yn hysbysu'r pennaeth ac yn gofyn iddi/iddo ymchwilio i'r achos ac adrodd yn ôl i gynrychiolydd o'r corff.

## 4 Rôl y pennaeth

4.1 Cyfrifoldeb y pennaeth yw sicrhau bod y polisi gwrth-fwlio yn cael ei weithredu a sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o bolisi'r ysgol ac yn gwybod sut mae delio â bwlio. Mae'r pennaeth yn adrodd yn ôl i'r corff llywodraethol ynglŷn ag effeithiolrwydd y polisi yn ôl y gofyn.

4.2 Mae'r pennaeth yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gwybod bod bwlio yn anghywir ac yn annerbyniol yn yr ysgol hon. Mae'r pennaeth yn dod â hyn i sylw'r plant ar adegau addas. Er enghraifft, os bydd achos o fwlio yn digwydd, efallai y bydd y pennaeth yn defnyddio amser gwasanaeth i drafod paham bod bwlio yn anghywir, ac i esbonio paham bod angen cosbi'r peth.

4.3 Mae'r pennaeth yn sicrhau bod y staff wedi eu hyfforddi'n ddigonol er mwyn delio ag achosion o fwlio.

4.4 Mae'r pennaeth yn gosod ethos yr ysgol, yn annog cyd-ddibyniaeth, yn canmol llwyddiant, ac yn gwneud bwlio yn llai tebygol o ddigwydd. Pan fydd plant yn teimlo eu bod yn bwysig, ac yn perthyn i ysgol gyfeillgar a chroesawgar, byddant yn llai tebygol o fabwysiadu ymddygiad annerbyniol.

## 5 Rôl yr athrawon

5.1 Mae'r athrawon yn ein hysgol yn ystyried bod pob math o fwlio yn ddifrifol, a byddant yn ymyrryd er mwyn osgoi achosion o fwlio. Maent yn cadw cofnod eu hunain o ddigwyddiadau sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth, neu ddigwyddiadau eraill y maent yn ymwybodol ohonynt yn eu ffeiliau cofnodion personol.

5.2 Os bydd athrawon yn dyst i weithred o fwlio, byddant yn gwneud popeth sydd o fewn eu gallu i gynorthwyo'r plentyn sy'n dioddef. Os yw'r bwlio yn digwydd dros gyfnod o amser, yna bydd yr athrawon yn cael gair gyda'r pennaeth, a bydd y pennaeth yn hysbysu'r rhieni.

5.3 Cedwir llyfr cofnod gwrth-fwlio yn ystafell y Pennaeth. Cofnodir pob achos o fwlio sy'n digwydd yn tu allan i amser gwersi, wrth ymyl yr ysgol, ar y ffordd i'r ysgol ac o'r ysgol. Os bydd oedolyn yn dyst i weithred o fwlio, dylent sicrhau bod y peth yn cael ei gofnodi.

5.4 Os bydd yr athrawon yn dod i sylweddoli bod bwlio yn digwydd rhwng aelodau o'r dosbarth, yna byddant yn delio â'r mater yn syth. Byddwn yn cosbi'r un sy'n gweithredu'r bwlio, ac yn cynghori a chefnogi'r un sy'n dioddef o fwlio. Rydyn ni'n treulio amser gyda'r un sy'n gweithredu'r bwlio: rydyn ni'n esbonio bod yr ymddygiad yn anghywir, ac rydyn ni'n ceisio eu helpu i newid eu hymddygiad er gwell. Os yw plentyn yn parhau i fwlio plant eraill, rydyn ni'n hysbysu'r pennaeth a'r cyd-lynydd anghenion arbennig. Rydyn ni'n gwahodd y rheini i'r ysgol er mwyn trafod y mater. Mewn achosion eithafol, er enghraifft pan fydd y trafodaethau wedi bod yn aflwyddiannus, bydd y pennaeth yn cysylltu gydag asiantaethau allanol, er enghraifft y gwasanaethau cymdeithasol.

5.5 Mae'r athrawon yn mynychu hyfforddiant er mwyn eu galluogi i allu delio gydag achosion o fwlio a rheoli ymddygiad plant, a chedwir ystod o adnoddau perthnasol yn yr ystafell adnoddau, gan y cyd-lynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r cyd-lynydd Amddiffyn Plant.

5.6 Mae'r athrawon yn ein hysgol yn ymdrechu i gynorthwyo pob disgybl a chreu ymdeimlad o ymddiriedaeth a pharch tuag at bawb. Wrth ganmol, gwobrwyo a dathlu llwyddiant plant, rydyn ni'n gobeithio y byddwn yn atal achosion o fwlio.

## 6 Rôl y rheini

6.1 Mae rôl y rheini yn bwysig er mwyn annog eu plant i beidio bwlio nac ymddwyn mewn ffordd sy'n bygwth eraill. Dylent fod yn ddygn wrth geisio sylwi ar arwyddion o fwlio.

6.2 Os bydd rheini'n gofidio bod eu plentyn yn dioddef o fwlio, neu'n amau bod eu plentyn yn bwlio eraill, dylent hysbysu'r athro/athrawes dosbarth yn syth.

6.3 Os oes gweithred o fwlio yn digwydd, dylai'r rhieni a'r staff drefnu amserlen fel bod amser digonol i ymchwilio i'r mater a delio'n effeithiol gyda'r problemau, ac fel bo'r rhieni yn deall pryd y gallan nhw ddisgwyl cael ymateb.

6.4 Dylai rhieni'r plentyn sy'n cael ei amau o weithredu'r bwlio gael rhan gadarnhaol yn y strategaethau er mwyn datrys y mater. Mae cyfrifoldeb ar y rhieni i gefnogi polisi gwrth-fwlio yr ysgol, ac annog eu plant yn weithredol i fod yn aelodau cadarnhaol o'r ysgol.

6.5 Dylai rhieni fod yn ymwybodol y gallant drafod eu gofidiau gyda staff yr ysgol eto os ydynt yn teimlo bod y digwyddiadau o fwlio yn parhau.

6.6 Dylai rhieni gael gwybod y gallant wneud cŵyn ysgrifenedig swyddogol i'r pennaeth os nad ydynt yn fodlon â'r ffordd y mae'r mater yn cael ei ddelio. Ar ôl i'r pennaeth ymchwilio i'r peth, os ydynt yn parhau i fod yn anhapus, gallant ysgrifennu at Gadeirydd y Corff Llywodraethol er mwyn gofyn iddynt adolygu'r mater yn swyddogol.

6.7 Bydd y Gwasanaeth Lles Addysgiadol (EWS) yn cefnogi disgyblion a rhieni, gan sicrhau eu bod yn derbyn cyngor ac arweiniad i'w cynorthwyo i ddelio â phlant sy'n bwlio a phlant sy'n dioddef o fwlio.

## 7 Rôl y disgyblion

7.1 Anogir y disgyblion i ddweud wrth rywun neu rywrai y maent yn ymddiried ynddynt os ydyn nhw'n cael eu bwlio, ac os yw'r bwlio yn parhau, rhaid iddynt barhau i adael i bobl wybod.

7.2 Rydym yn gwahodd y disgyblion i ddweud eu barn nhw am amrywiaeth o faterion ysgol, yn cynnwys bwlio, yn yr holiadur blynyddol i ddisgyblion.

7.3 Mae ein Cyngor Ysgol wedi datblygu ei côd gwrth-fwlio ei hunan.

## 8 Monitora ac adolygu

8.1 Mae'r polisi hwn yn cael ei fonitora o ddydd i ddydd gan y pennaeth. Bydd yn adrodd yn ôl i'r lywodraethwyr ar effeithiolrwydd y polisi yn ôl y gofyn.

8.2 Cyfrifoldeb y corff llywodraethol yw'r polisi gwrth-fwlio a byddant yn adolygu ei effeithiolrwydd yn flynyddol. Byddant yn archwilio'r llyfr cofnod gwrth-fwlio, ac yn trafod y mater gyda'r pennaeth. Mae'r llywodraethwyr yn dadansoddi'r wybodaeth yn ôl rhyw, oed a grwpiau ethnig y plant sy'n rhan o'r achosion o fwlio.

Pennaeth:- S Evans

Cadeirydd y Corff Llywodraethol:- Tony Phillips

Dyddiad:- 24/3/21

## Adnoddau ar gyfer rhieni a theuluoedd ar fwlio:

ALEXANDER, J. Your child bullying: Practical and easy to follow advice. Element Books, 1998.
ELLIOTT, M. 101 Ways to deal with bullying - A guide for parents. Hodder a Stoughton, 1997.

KIDSCAPE. Keeping safe: A practical guide to talking with children. Kidscape, 2 Grosvenor Gardens, London SW1W ODH, 1990.

LAWSON, S. Helping children cope with bullying. Sheldon Press, 1994.

LINDENFIELD, G. Confident children: A parents' guide to helping children feel good. Thorsens, 1994

MELLOR A. Bullying and how to fight it: A guide for families. Scottish Council for Research in Education, 15 St John Street, Edinburgh EH5 5JR, 1993

PEARCE J. Fighting, teasing and bullying: Simple and effective ways to help your child. Wellingborough: Thorsons, 1989

TRAIN, A. The bullying problem: How to deal with difficult children. Condor Book, Souvenir Press, 1995.

## Sefydliadau a allai helpu:

Advisory Centre for Education, IC Aberdeen Studios, 22 Highbury Grove, London N5 2DQ.
Ffôn: 0207 704 9822 Llinell gymorth: 0207 354 8321 (Llun-Gwener 2-5 pm).
Llinell gymorth i rieni ar faterion sy'n ymwneud ag ysgolion.

Anti Bullying Campaign, 185 Tower Bridge Road, London SE1 2UF.
Ffôn: 0207 378 1446 (9.30 am - 5.00 pm).
Llinell gyngor i rieni a phlant.

Childline, Royal Mail Building, Studd Street, London, N1 OQW
Ffôn: 0207 239 1000 Ffacs: 0207 239 1001
Yn ogystal â'r llinell gymorth genedlaethol i blant, mae taflen ar gael i rieni: *Bullying - What can parents do?* a thaflen i blant: *Bullying and how to beat it*.

Children's Legal Centre, Ff: 01206 873 820
(Llun-Gwener 10 am - 12.30 pm a 2 pm - 4.30 pm).
Cyhoeddiadau a llinellau cyngor di-dâl ar faterion cyfreithiol.

Circles Network, Parnwell House, 160 Pennywell Road, Upper Easton, Bristol BS5 OTX Ffôn: 0117 939 3917
Yn cefnogi gweithgareddau Clychoedd Ffrindiau.

Kidscape, 2 Grosvenor Gardens, London SW1W ODH.
Ffôn: 0207 730 3300 Ffacs: 0207 730 7081
Amrywiaeth eang o gyhoeddiadau ar gyfer pobl ifanc, rhieni ac athrawon.
Cynghorydd bwlio ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, 10-4.

Parentline Plus, 520 Highgate Studios, 53-79 Highgate Road, Kentish Town, London NW5 1TL. Ffôn: 0808 800 2222.
Llinell gymorth genedlaethol i rieni (Llun-Gwener 9-9; Sadwrn 9.30-5; Sul 10-3).

Uned Wrth-Fwlio, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, Ffôn: 029 20 416781
(Llun-Iau 08.30 am-12.30pm a 2.00 pm-5.00pm- dydd Gwener 08.30-12.30pm a 2.00pm-4.30pm)